

Hysbysiad Cyhoeddus:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Archwiliad Cyfrifon 2025/2026

Rhoddir hysbysiad, yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rhwng Dydd Llun 19^{eg} Hydref 2026 i Dydd Gwener 13^{eg} Tachwedd 2026, rhwng yr oriau 9.30yb a 12.45yp a 2.00yp i 4.15yp, y caiff unrhyw berson sydd â diddordeb, ar gais i'r Awdurdod, archwilio a gwneud copïau o Gyfrifon y Cyngor a enwir uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31^{af} Mawrth 2026 a'r holl weithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n gysylltiedig â hwy.

Bydd y dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio ar sail ddigidol yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Steelworks Road, Glynebwy, Gwent NP23 8UW.

Er mwyn ein galluogi i wneud trefniadau priodol ar gyfer archwiliad, gofynnwn i bartïon â diddordeb wneud apwyntiad trwy e-bost i TreasuryManagement@blaenau-gwent.gov.uk neu drwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Strategol – Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfeydd Cyffredinol, Steelworks Road, Glynebwy, Gwent NP23 8UW.

Ar neu ar ôl Dydd Llun 16^{eg} Tachwedd 2026 am 10.00yb, bydd yr Archwilydd Penodedig, Archwiliad Cymru, 1 Capital Quarter, Caerdydd, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r Cyfrifon yn ymwneud â hi, yn rhoi i'r etholwr neu ei gynrychiolydd ef/hi gyfle i'w holi am y Cyfrifon a gwneud gwrthwynebiadau:

- Ar y sail bod unrhyw eitem o gyfrif yn groes i'r gyfraith, bod unrhyw berson wedi methu ag ystyried unrhyw swm y dylid fod wedi'i gynnwys ac nad yw'r methiant wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, neu fod colled wedi digwydd neu ddiffyg a achosir gan gamymddwyn bwriadol unrhyw berson; neu
- Mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n dod i sylw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystod yr archwiliad y gallai lunio adroddiad arno er budd y cyhoedd.

Ni chaniateir gwneud gwrthwynebiad o'r fath oni bai bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad yn gyntaf a'r seiliau ar yr hyn y dylid ei wneud; copi o'r rhybudd hwnnw i'w anfon ar y pryd i'r Cyngor uchod.

Rhian Hayden

Cyfarwyddwr Strategol - Gwasanaethau Corfforaethol